# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09:00 - 10:37** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_18_02_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mike Hedges**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi
2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg: Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (5 Chwefror 2014)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:
3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013
4.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad gan nodi y gwneir trefniadau i drafod yr eitem hon ymhellach ar ôl y Pasg pan fydd dau adroddiad cysylltiedig gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gael. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth cyn y cyfarfod hwnnw.

## 5 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Trafod tystiolaeth ychwanegol
5.1 Nododd yr Aelodau y dystiolaeth ychwanegol. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion a bydd y clercod yn llunio adroddiad drafft.

## 6 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Trafod tystiolaeth ychwanegol
6.1 Nododd yr Aelodau y dystiolaeth ychwnaegol. Mynegodd yr Aelodau rai pryderon a chytunwyd i ymdrin â'r rhain yn y sesiwn lafar sydd i ddod gyda Phrif Weithredwr GIG Cymru.

6.2 Bydd y clercod yn llunio fersiwn derfynol o'r adroddiad ac yn ei ddosbarthu i'r Aelodau er mwyn iddynt gytuno arno.

## 7 Gofal heb ei drefnu: Trafod tystiolaeth ychwanegol
7.1 Nododd yr Aelodau y dystiolaeth ychwanegol a gaiff ei hadlewyrchu yn adroddiad y Pwyllgor.

## 8 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru
8.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar *Ymdrin â'r heriau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru.*

8.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd

y Cadeirydd hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i roi gwybod i'r Pwyllgor am yr adroddiad hwn a gofyn iddo ystyried cynnal ymchwiliad i'r mater.

8.3 Ar ôl i'r ymatebion ddod i law, bydd y Pwyllgor yn trafod a ddylid cynnal ymchwiliad i'r mater.